WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2018 – **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1026A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gan Mike Usher, Dave Thomas, Tom Haslam a Mark Jones.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 5

Negeseuon allweddol 6

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 8

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol cyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18 ond, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn rhai materion at sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio 8

Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ac wedi rhoi adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn i amlygu ei fod wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol 9

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 11

Mae rhai trefniadau llywodraethu wedi gwella ond mae gennyf bryderon ynghylch prosesau rheoli risg a rhai prosesau llywodraethu sylfaenol eraill 11

Mae gweledigaeth y Bwrdd Iechyd yn 2015 yn dal i fod yn berthnasol ac mae trefniadau cynllunio strategol yn gadarn ar y cyfan, ond mae angen gwell trefniadau monitro perfformiad 13

Er bod gan y Bwrdd Iechyd ystod eang o heriau i sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, mae fel arfer yn cydnabod ble mae angen iddo wella ac, yn ddiweddar, mae wedi creu rhaglen drawsnewid i wella perfformiad ac effeithlonrwydd 14

Mae fy rhaglen waith ehangach yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i newid, ond mae angen mwy o waith ac mae wedi bod yn araf o ran mynd i'r afael â rhai o'm hargymhellion 16

Mae'r ymchwiliad i dwyll posibl, a amlygwyd gan ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol, wedi bod yn annigonol 19

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 21

Atodiad 2 – ffi archwilio 22

Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol 23

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2018. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

2 Rwyf wedi adrodd fy nghanfyddiadau o dan y penawdau canlynol:

- negeseuon allweddol;
- archwiliad o gyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

3 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

4 Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2018.

5 Mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2018 a sut yr aer i'r afael â nhw yn ystod yr archwiliad.

6 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 26 Chwefror 2018. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol a bydd pob aelod yn cael copi ohono. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan swyddfa Archwilio Cymru.

7 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio mae fy nhîm wedi ei gyflawni dros y 12 mis diwethaf.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

8 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon. Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar eu paratoad. Fodd bynnag, adroddais rai argymhellion ar gyfer gwella i swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio, y maent yn mynd i'r afael â nhw ar gyfer cyfrifon 2018-19.

9 Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18.

10 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, rhoddais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i amlygu ei fod wedi methu â mantoli'r gyllideb a'i fod wedi methu â sicrhau bod ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

11 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig 2018 yn y Bwrdd Iechyd wedi dod i'r casgliad:

- bod rhai trefniadau llywodraethu wedi gwella ond bod gennyf bryderon ynghylch prosesau rheoli risg a rhai prosesau llywodraethu sylfaenol eraill.
- bod gweledigaeth y Bwrdd Iechyd yn 2015 yn dal i fod yn berthnasol a bod trefniadau cynllunio strategol yn gadarn ar y cyfan, ond bod angen gwell trefniadau monitro perfformiad.
- er bod gan y Bwrdd Iechyd ystod eang o heriau i sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, ei fod fel arfer yn cydnabod ble mae angen iddo wella ac, yn ddiweddar, ei fod wedi creu rhaglen drawsnewid i wella perfformiad ac effeithlonrwydd.

12 Mae fy rhaglen waith ehangach yn cynnwys adolygiadau o wasanaethau Gofal Sylfaenol a'r Gronfa Gofal Integredig. Mae'r ddau adolygiad wedi dod o hyd i rai agweddau ar arfer da, ynghyd â chyfleoedd i wella trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn y Fenter twyll Genedlaethol, ond mae ei ymateb wedi bod yn annigonol ac nid yw wedi gwneud llawer o ddefnydd o'r data a ryddhawyd yn 2017. Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

13 Yn ystod y flwyddyn, adroddais hefyd ar wasanaethau dilynol i gleifion allanol, gwasanaethau radioleg a Gwasanaethau Gwybodeg y GIG ar lefel Cymru gyfan. Cyflwynodd fy nhîm ymgysylltu yr adroddiadau hyn i'ch Pwyllgor Archwilio, gan amlygu elfennau cenedlaethol a lleol arfer da ac unrhyw feysydd i'w gwella. Mae

unrhyw argymhellion a wnaed yn fy adroddiadau cenedlaethol sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd yn cael eu mabwysiadu'n rheolaidd gan system olrhain argymhellion y Bwrdd Iechyd.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

14 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

15 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â nhw; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.

16 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

### Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol cyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18 ond, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn rhai materion at sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio

17 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir. Deuthum i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd yn amserol, yn gywir ac yn ddibynadwy, ac yn hawdd ei deall. Deuthum i'r casgliad bod polisïau ac amcangyfrifon cyfrifyddu'r Bwrdd Iechyd yn briodol a bod y datgeliadau cyfrifyddu yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.

18 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw wendidau sylweddol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.

19 Fodd bynnag, adroddais rai argymhellion ar gyfer gwella i swyddogion a’r Pwyllgor Archwilio. Byddaf yn adolygu sut yr aeth y Bwrdd Iechyd ati i roi’r argymhellion hynny ar waith fel rhan o’m harchwiliad o gyfrifon 2018-19.

20 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd, ac i’r Bwrdd, ar 31 Mai 2018. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi’r materion allweddol yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae’r tabl canlynol yn crynhoi a rhoi sylwadau ar y materion allweddol a nodwyd.

| Mater | Sylwadau’r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Adroddais bedwar camddatganiad heb eu cywiro, a ddaeth i gyfanswm o £44,184. |
| Camddatganiadau wedi’u cywiro | Adroddais y pedwar camddatganiad wedi’u cywiro mwyaf sylweddol. Roedd y pedwar camddatganiad wedi’u cywiro yn ymwneud â datgeliadau cyfrifyddu. Mae camgymeriadau o’r fath yn golygu, er bod y trafodion sylfaenol yn gywir, eu bod wedi’u datgelu’n anghywir yn y cyfrifon. |
| Materion sylweddol eraill | Y prif wendid sylweddol oedd absenoldeb ffurflenni gan rai o aelodau annibynnol y Bwrdd Iechyd. Roeddwn i wedi gwneud argymhelliad yn y maes hwn y flwyddyn flaenorol, felly roeddwn i’n siomedig bod y gwendid gweithdrefnol yn dal i fodoli. Roedd y diffyg ffurflenni yn hynod bwysig gan fy mod i’n archwilio datgeliadau perthnasol i lefel berthnasedd is o lawer. |

21 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2018, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru.

22 Mae fy archwiliad ar wahân o gyfrifon cronfeydd elusennol y Bwrdd Iechyd wedi'i gwblhau. Ar 13 Rhagfyr 2018, adroddodd fy Rheolwr Archwilio Ariannol ganlyniadau’r archwiliad i’r Ymddiriedolwr, ac ardystiais y cyfrifon ar 18 Rhagfyr.

## Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio amodol ar reoleidd-dra’r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ac wedi rhoi adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â’m barn i amlygu ei fod wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol

23 Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18.

24 Rhaid i drafodion ariannol y Bwrdd Iechyd gyd-fynd â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid bod ganddo'r pwerau i dderbyn yr incwm a gwneud y gwariant sydd ganddo. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn neu eu gwneud.

25 Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn llwyddo i fantoli'r gyllideb, mae ei wariant yn uwch na'i bwerau i wario, felly mae'n rhaid i mi gyhoeddi barn amodol. Mae Arddangosion 2 a 3 yn amlinellu perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2018. Mae Arddangosyn 2 yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chyflawni ei ddyraniad adnoddau refeniw ar gyfer y tair blynedd, a arweiniodd at fy marn amodol ar reoleidd-dra. Mae Arddangosyn 3 yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyraniad adnoddau cyfalaf.

Arddangosyn 2: perfformiad ariannol yn erbyn y dyraniad adnoddau refeniw

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treuliau gweithredu | 828,019 | 914,221 | 899,060 | 2,641,300 |
| Dyraniad adnoddau refeniw | 828,087 | 884,978 | 872,207 | 2,585,272 |
| Tanwariant (gorwariant) yn erbyn y dyraniad | 68 | (29,243) | (26,853) | (56,028) |

Arddangosyn 3: perfformiad ariannol yn erbyn y dyraniad adnoddau refeniw

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ffioedd cyfalaf | 40,967 | 42,026 | 47,033 | 130,026 |
| Dyraniad adnoddau cyfalaf | 41,027 | 42,104 | 47,121 | 130,252 |
| Tanwariant (gorwariant) yn erbyn y dyraniad | 60 | 78 | 88 | 226 |

26 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm barn lle rwyf eisiau tynnu sylw at faterion. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi

methu â chyflawni ei ddyletswyddau ariannol, rhoddais adroddiad o sylwedd yn amlinellu'r manylion ffeithiol:

- methodd â mantoli'r gyllideb (fel yr amlinellir uchod); ac
- nid oes ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith ac mae wedi bod yn gweithio i gynllun gweithredu blynyddol y mae'r Bwrdd yn ei gymeradwyo bob blwyddyn.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

27 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud gwaith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd;
- adolygu ymagwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio strategol;
- archwilio'r trefniadau sydd ar waith i reoli cyllid, gweithlu, asedau a phrosesau caffael y Bwrdd Iechyd;
- y defnydd penodol o adnoddau mewn perthynas â gwasanaethau Gofal Sylfaenol a gwaith partneriaeth rhanbarthol;
- adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol; ac
- asesu'r defnydd o ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).

28 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u hamlinellu isod.

## Mae rhai trefniadau llywodraethu wedi gwella ond mae gennyf bryderon ynghylch prosesau rheoli risg a rhai prosesau llywodraethu sylfaenol eraill

29 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, y ffordd mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cyflawni eu busnes ac i ba raddau mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Edrychais hefyd ar y wybodaeth mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ei derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion sefydliadol. Deuthum i'r casgliadau canlynol:

30 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella trefniadau'r bwrdd a'i bwyllgorau, ond nid yw wedi cyflawni arfer da cyson ar draws y sefydliad hyd yma.** Sylwodd fy ngwaith ar rai gwelliannau o ran craffu a her yn y Bwrdd a'i

bwyllgorau allweddol[1]. Mae newidiadau diweddar i waith y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gadarnhaol, ond bydd llwyddiant yn dibynnu ar y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Yn bwysig, mae fy ngwaith asesu strwythuredig wedi pwysleisio cyfleoedd i gryfhau'r ffordd mae'r Pwyllgor Archwilio yn gweithio. Rwy'n falch o nodi bod gwaith wedi cychwyn i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd.

31 **Mae oedi o ran diwygio'r fframwaith risg a sicrwydd corfforaethol yn golygu, tan yn ddiweddar, nad yw'r Bwrdd wedi bod yn goruchwylio risgiau strategol yn ddigonol.** Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod diwygiadau'r Bwrdd Iechyd i'w Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol yn araf. Roedd hyn yn golygu nad oedd risgiau corfforaethol yn gwbl weladwy neu nad oeddent yn cael eu craffu gan y Bwrdd. Yn ddiweddar, penderfynodd y Bwrdd Iechyd newid ei ddull yn llwyr a datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) a chofrestr risg gorfforaethol ar wahân. Mae'n gwneud cynnydd da gyda hyn. Dylai'r datblygiadau hyn ei gwneud hi'n haws i'r Bwrdd a'i bwyllgorau graffu a herio.

32 **Deuthum o hyd i rai meysydd o arfer cadarn, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud sawl gwelliant sylweddol i'w system sicrwydd.** Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod gan y Bwrdd Iechyd rai trefniadau da ar gyfer llywodraethu ansawdd, a'i fod yn gwneud gwelliannau pellach.

33 Yn 2017, nodais fod gwybodaeth am berfformiad a adroddwyd ar lefel pwyllgor yn llai manwl na'r wybodaeth a adroddwyd i'r Bwrdd. Mae hyn yn dal i fod yn wir, gan fynd yn groes i fwriad y Bwrdd o fod yn fwy strategol trwy dderbyn lefelau uwch o graffu a sicrwydd yn ei bwyllgorau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau'r ffordd mae perfformiad byrddau clinigol yn cael ei reoli, ond mae angen diweddaru'r fframwaith rheoli perfformiad cyffredinol.

34 Daeth fy ngwaith o hyd i sawl gwendid yn y systemau rheolaeth fewnol sy'n cefnogi sicrwydd y bwrdd. Yn arbennig, nid oes gan y Pwyllgor Archwilio ffordd gyson a chynhwysfawr o olrhain a rheoli'r sicrwydd y mae'n ei dderbyn gan wahanol grwpiau a sefydliadau.

35 **Mae angen i'r Bwrdd Iechyd wella trefniadau llywodraethu gwybodaeth a chryfhau ei fframwaith seiberddiogelwch.** Mae gwelliannau i drefniadau seiberddiogelwch wedi'u nodi ac mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwneud gwelliannau.

36 Yn 2018, goruchwyliodd yr is-bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Gwybodaeth[2] waith yr adran Gwybodeg. Mae ffocws yr is-bwyllgor ar faterion gweithredol wedi bod yn niweidiol i faterion mwy strategol megis goruchwylio darpariaeth cynllun strategol a rheoli sicrwydd. Er enghraifft:

[1] Fel rhan o'n gwaith asesu strwythuredig, arsylwyd ar y Bwrdd a'r pwyllgorau canlynol – y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni a'r Pwyllgor Archwilio.

[2] Mae hyn yn adrodd i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni

- ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR erbyn mis Mai 2018, ac mae'n bwriadu cydymffurfio'n llawn erbyn mis Mai 2019;
- nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r holl argymhellion a wnaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2016, ac mae'r rhan fwyaf o'r camau a nodwyd heb eu cwblhau o hyd;
- nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â gwahanol safonau gwybodaeth ac nid yw wedi cyflawni'r targedau cenedlaethol (e.e. ceisiadau Cyfrinachedd Gwybodaeth Caldicott, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data); ac
- nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddull rheolaidd o ddiweddaru a phrofi ei gynlluniau adfer trychineb TG.

## Mae gweledigaeth y Bwrdd Iechyd yn 2015 yn dal i fod yn berthnasol ac mae trefniadau cynllunio strategol yn gadarn ar y cyfan, ond mae angen gwell trefniadau monitro perfformiad

37 Archwiliodd fy ngwaith sut mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid ac yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Asesais hefyd pa mor dda mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio sut y bydd yn cyflawni ei amcanion a sut y mae'n monitro cynnydd o ran darparu ei gynlluniau.

38 Datblygwyd strategaeth 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd Strategaeth Siapio ein Llesiant yn y Dyfodol: 2015-25[3] yn dilyn ymgynghoriad eang â rhanddeiliaid. Mae gweithgarwch ymgysylltu pellach yn llywio'r rhaglenni gwaith a'r cynlluniau eraill sy'n sail i'r strategaeth 10 mlynedd hefyd.

39 Ni dderbyniwyd yr IMTP a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2018 oherwydd y rhagdybiaethau cyllid yr oedd yn seiliedig arnynt. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio i Gynllun Gweithredol Blynyddol (AOP). Mae'r Bwrdd Iechyd yn paratoi ei IMTP 2019-21 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Nododd fy asesiad strwythuredig 2017 fod proses gynllunio'r Bwrdd Iechyd yn gadarn ar y cyfan. Ers hynny, nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i'r broses, ac eithrio rhai mân newidiadau.

40 Yn olaf, asesodd fy ngwaith y gwaith o fonitro cynlluniau strategol a rhaglenni newid. Argymhellodd fy asesiad strwythuredig 2017 y dylai'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni (S&D) archwilio'n rheolaidd y cynnydd o ran darparu'r AOP. Eleni, daethom i'r casgliad bod y Pwyllgor S&D yn derbyn adroddiadau cynnydd ar feysydd unigol o'r AOP. Fodd bynnag, ni ddaethom o hyd i unrhyw dystiolaeth bod y Pwyllgor S&D yn derbyn crynodeb o gynnydd cyffredinol neu wedi'i grynhoi yn erbyn targedau cyflawnadwy yr AOP. Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau ar ddatblygiad IMTP i'r dyfodol, ond ni ddaethom o hyd i unrhyw dystiolaeth bod y Bwrdd yn derbyn diweddariadau ar gynnydd o ran darparu'r AOP.

[3] Siapio ein Llesiant yn y Dyfodol 2015-2025.

## Er bod gan y Bwrdd Iechyd ystod eang o heriau i sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, mae fel arfer yn cydnabod ble mae angen iddo wella ac, yn ddiweddar, mae wedi creu rhaglen drawsnewid i wella perfformiad ac effeithlonrwydd

41 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei weithlu, ei arian a'i asedau ffisegol eraill i gefnogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Ystyriais hefyd y trefniadau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

42 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei reolaeth ariannol ac yn awyddus i fantoli'r gyllideb erbyn 2020-21, ond mae'n dal i ragweld diffyg ar ddiwedd 2018-19**. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18, gweithredodd y Bwrdd Iechyd o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf ar gyfer y terfyn blynyddol a'r terfyn tair blynedd. Ar gyfer 2017-18, adroddodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £26.8 miliwn yn erbyn y terfyn adnoddau refeniw a diffyg o £56 miliwn yn erbyn y terfyn adnoddau refeniw tair blynedd. Ar gyfer 2018-19, mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl gweithredu o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf a gwella ei sefyllfa refeniw flynyddol, ond gan ragweld diffyg o £9.9 miliwn. Mae'r rhagolwg hwn yn ystyried y refeniw ychwanegol amodol o £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

43 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rheolaeth ariannol boddhaol a threfniadau effeithiol o ran nodi arbedion a datblygu cynlluniau arbed. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o Brosiect Gweithredu System Gostio Cymru Gyfan. Disgwylir y bydd hyn yn darparu gwell dealltwriaeth o gostau ac incwm, yn fewnol ac o gymharu â chyrff iechyd eraill, a ddylai helpu i fantoli'r gyllideb.

44 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o heriau'r gweithlu ac mae'n datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â nhw ond, hyd yma, mae wedi methu â mynd i'r afael â chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol.** Mae absenoldeb salwch yn cael effaith ariannol ar gyllidebau'r bwrdd iechyd, megis yr angen am staff asiantaeth a thros dro. Roedd cyfradd salwch gyffredinol y Bwrdd Iechyd wedi codi ychydig rhwng 2017 a 2018, ond mae'n dal i fod ychydig o dan gyfartaledd Cymru. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i ddeall absenoldeb salwch yn well, a'i nod yw lleihau absenoldeb salwch i 4.2% erbyn 2020-21.

45 Mae sawl menter ar waith i geisio lleihau'r defnydd o staff meddygol a nyrsio dros dro. Yn 2017, rhoddodd y Bwrdd Iechyd y gorau i ddefnyddio staff asiantaeth oddi ar gontract, ac mae'n bwriadu parhau i wneud hyn yn ystod 2018-19. Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod gwariant ar staff asiantaeth yn is nag ydyw mewn byrddau iechyd eraill. Fodd bynnag, roedd y gyfradd swyddi gwag wedi codi i 3.2% erbyn mis Gorffennaf 2018 (2.6% ym mis Gorffennaf 2017).

46 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod efallai y bydd angen gwneud newidiadau sylfaenol i ddyluniad, cyfansoddiad a defnydd er mwyn creu gweithlu cynaliadwy.

Mae cynllun datblygu'r gweithlu a'r sefydliad yn amlinellu sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn gweddnewid y gweithlu i gyflawni ei weledigaeth yn y cynllun 10 mlynedd.

47 Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn waeth na'r targedau cenedlaethol ar gyfer cyfraddau arfarnu staff a chydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i wella yn y meysydd hyn.

48 Er gwaethaf blynyddoedd lawer o waith gan y Bwrdd Iechyd, yn 2016 sylwodd fy ngwaith fod ymarfer cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yn amrywio o hyd. Y targed ar gyfer cydymffurfio â chynllun swyddi meddygon ymgynghorol yw 85% ond, ym mis Awst 2018, cyfradd gydymffurfio'r Bwrdd Iechyd oedd 50%. Yn 2018, daeth adolygiad Archwilio mewnol o drefniadau cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol i'r casgliad mai ychydig iawn o sicrwydd yr oeddent yn ei ddarparu.

49 **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn caffael ac mae ganddo gynlluniau caffael manwl a threfniadau effeithiol ar gyfer monitro gwariant a gweithgarwch caffael.** Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaeth Caffael yn rheoli'r rhan fwyaf o gaffael y Bwrdd Iechyd. Mae yna Strategaeth Gaffael Cymru Gyfan, gyda chynllun busnes Cymru gyfan yn sail iddi. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu staff ychwanegol ar gyfer y tîm caffael, sy'n drefnus ac wedi integreiddio â'r byrddau clinigol. Bob blwyddyn, mae'r Pennaeth Caffael yn datblygu prosiect penodol i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gwelliannau caffael. Mae caffael yn rhan o raglen gwella costau'r Bwrdd Iechyd hefyd. Yn 2017-18, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd da yn erbyn ei darged arbedion gwella costau o £2 filiwn.

50 **Mae strategaethau rheoli asedau ar wahanol lefelau datblygu, ac efallai y bydd angen goruchwyliaeth gorfforaethol gryfach ar sawl risg sy'n gysylltiedig ag asedau.** Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth rheoli asedau gyffredinol. Yn hytrach, mae ganddo sawl strategaeth ar wahân ar gyfer ystadau, cyfarpar meddygol a TG, gyda phob un ar wahanol gyfnodau datblygu. Mae rheolaeth y Bwrdd Iechyd o rai risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig ag asedau wedi bod yn wan. Roedd hyn yn rhannol oherwydd absenoldeb cofrestr risg gorfforaethol gyfredol ac ystyrlon.

51 Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu rhai risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig ag asedau:

- Mae costau cynnal a chadw'r ôl-groniad ystadau yn dod i oddeutu £130 miliwn ar hyn o bryd. Mae cynnal a chadw ôl-groniad ystadau yn risg gan ei fod yn dargyfeirio cyllid o gynnal a chadw rhagweithiol i gynnal a chadw adweithiol.
- Mae sawl risg TG bwysig, gan gynnwys effaith leol methiannau systemau TG cenedlaethol, bygythiadau seiberddiogelwch, oedi gyda rhaglenni TG cenedlaethol a diffyg capasiti mewnol i ddarparu prosiectau newydd a chynnal gweithrediadau busnes fel arfer yr un pryd.

52 **Er gwaethaf gwelliannau, mae rhai targedau gweithgarwch yn heriol o hyd, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rhaglen drawsnewid i wella perfformiad ac**

**effeithlonrwydd.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio mewn amgylchedd heriol ac yn cydnabod lle mae angen iddo wella ei berfformiad. Er gwaethaf gwelliant mewn rhai meysydd, mae cyflawni rhai targedau amseroedd aros yn her fawr o hyd. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni ei dargedau ar gyfer achosion canser brys a 26 wythnos o'r atgyfeiriad i gychwyn triniaeth. Mae'r anawsterau hyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau strategol a thrawsnewidiol y Bwrdd Iechyd. Nod y rhaglen drawsnewid ddiweddar yw cyflymu'r gwaith o gyflawni'r strategaeth 10 mlynedd, cefnogi gwaith effeithlon a gwella perfformiad y gwasanaeth. Mae hyn wedi'i ddylanwadu gan yr hyn a ddysgwyd gan Fwrdd Iechyd Canterbury yn Seland Newydd, ac mae'n defnyddio dull system gyfan, amlddisgyblaethol.

53 **Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi paru ei ymagwedd strategol at wybodeg â buddsoddiad a llywodraethu realistig, sy'n creu rhai risgiau.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio dod â gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth yn nes at ei gilydd. O ganlyniad, mae'n adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y swyddogaethau gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth. Yn 2019, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ailystyried Rhaglen Amlinellol Strategol gwybodeg. Bydd prosiectau digidol yn cael eu blaenoriaethu mewn strategaeth trawsnewid digidol sy'n cyfateb i flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd a'r cyllid sydd ar gael. Mae gan dechnoleg ddigidol y potensial i wella cynhyrchiant a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Ond mae llwyddiant yn dibynnu ar y Bwrdd Iechyd yn meddu ar seilwaith TG modern a chydnerth. Gwnaed rhywfaint o waith uwchraddio i dechnoleg a seilwaith TG yn 2017-18. Fodd bynnag, gall adnoddau prin gyfyngu ar faint y cymorth TG ar gyfer newidiadau i wasanaethau gweithredol. Yn ogystal, gall seilwaith TG hen ffasiwn beri risgiau o ran cydnerthedd a pharhad busnes.

## Mae fy rhaglen waith ehangach yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i newid, ond mae angen mwy o waith ac mae wedi bod yn araf o ran mynd i'r afael â rhai o'm hargymhellion

### Mae fy nghanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ar y Gronfa Gofal Integredig yn dangos ei bod yn cael rhai effeithiau cadarnhaol, ond mae gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol rai materion i'w datrys

54 Rwyf wedi cwblhau'r gwaith maes ar gyfer fy adolygiad traws-sector o'r Gronfa Gofal Integredig (y gronfa). Rwy'n bwriadu paratoi adroddiad cryno cenedlaethol yn gynnar yn 2019, gan amlinellu fy nghanfyddiadau Cymru gyfan. Mae fy nhîm archwilio eisoes wedi cyflwyno canfyddiadau lleol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dyma'r negeseuon allweddol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro:

- mae'r gronfa wedi cael effaith gadarnhaol o ran dod â sefydliadau ynghyd ar draws rhanbarth Caerdydd a'r Fro. Mae partneriaid iechyd ac awdurdod lleol yn ymgysylltu'n dda â'i gilydd. Mae hyn oherwydd cyfryngau cyfathrebu clir,

diwylliant o ymddiriedaeth a ffocws ar gyflawni canlyniadau. Fodd bynnag, nid yw rhai partneriaid yn gallu cyfrannu ac ymgysylltu'n llawn. Mae yna botensial i egluro a gwella'r cysylltiadau rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn rheolaidd.

- mae penderfyniadau yn ymwneud â'r defnydd o'r gronfa yn cael eu dirprwyo'n bennaf i is-grwpiau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n dda ar y cyfan, ond mae yna le i adolygu aelodaeth Bwrdd Rhaglen y Gronfa Gofal Integredig a'r Uwch Grŵp Arwain i sicrhau nad yw annibyniaeth a gwrthrychedd penderfynwyr yn cael eu cyfaddawdu.
- Oherwydd natur flynyddol y gronfa, mae'r rhanbarth yn cydnabod nad yw bob amser wedi defnyddio'r gronfa yn strategol i ddatblygu gwasanaethau yn seiliedig ar angen, ond mae ganddo drefniadau rheoli prosiect da ar waith.
- Mae cytundeb cyffredinol bod y gronfa'n cefnogi'r prosiectau iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Ond yn yr un fath â byrddau partneriaeth rhanbarthol eraill ledled Cymru, ychydig iawn o brosiectau sy'n cael eu troi yn wasanaethau gweithredol rheolaidd. Mae rhanbarth Caerdydd a'r Fro yn ceisio dangos canlyniadau yn gliriach, ond mae hyn yn cyflwyno her.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd gyda'i gynlluniau gofal sylfaenol uchelgeisiol ac mae'r pwysau ar y gweithlu yn llai nag ydyw mewn rhai meysydd eraill, ond mae perfformiad gofal sylfaenol yn gymysg ac mae sawl her yn bodoli o hyd

55 Deuthum i'r casgliad bod cynllun gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd (y cynllun) yn rhan o strategaeth ehangach i symud gofal yn nes at adref. Mae'r cynllun yn cyfateb i elfennau allweddol y cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn ystyried effaith datblygiadau tai Caerdydd ar dwf poblogaeth a ragwelir. Yn ogystal, mae yna le i gryfhau ymgynghoriad. Mae clystyrau meddygfeydd teulu wedi'u cefnogi i ddatblygu cynlluniau sy'n cyfrannu at gynllun gofal sylfaenol cyffredinol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae aeddfedrwydd clystyrau meddygfeydd teulu yn amrywio ac mae cynrychiolaeth gan rai rhanddeiliaid yn gyfyngedig.

56 Mae fformat y cyfrifon yn ei gwneud hi'n anodd i gyfrifo buddsoddiad cyffredinol y Bwrdd Iechyd mewn gofal sylfaenol, ac felly a yw'n newid a faint. Er gwaethaf hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd rai enghreifftiau penodol lle mae wedi trosglwyddo adnoddau tuag at ofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae newid ar raddfa fawr yn cael ei amharu gan:

- ddiffyg dealltwriaeth o'r mecanweithiau ar gyfer trosglwyddo cyllid ar draws cyllidebau a meysydd gwasanaeth;
- diffyg arweiniad cyllidebol ar gyfer trosglwyddo cyllid;

- y diffyg ariannol presennol, sy'n ei gwneud hi'n anodd i nodi ffrydiau cyllido ar gyfer trosglwyddo i ofal sylfaenol; a
- chynlluniau nad ydynt yn cynnwys digon o fanylion am effaith ariannol trosglwyddiadau gwasanaeth cyn rhoi cynlluniau ar waith.

57 Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant clystyrau yn ofalus, ond mae arweinwyr clystyrau wedi codi pryderon ynghylch oedi o ran gwneud penderfyniadau ariannol a nodi cronfeydd i droi cynlluniau peilot llwyddiannus yn ymarfer prif ffrwd. Mae gofal sylfaenol yn cael mwy o sylw yn y Bwrdd Iechyd, ond mae adroddiadau perfformiad yn dal i ganolbwyntio mwy ar ofal eilaidd.

58 Ar hyn o bryd, mae llai o bwysau ar y gweithlu gofal sylfaenol nag mewn rhai meysydd eraill, ond mae'r pwysau hwn yn cynyddu. Mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn nodi y bydd prinder meddygon teulu yn y dyfodol ac y bydd y gweithlu nyrsio yn heneiddio. Mae'n cyflwyno sawl rôl newydd i geisio lleihau'r pwysau hwn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cyflwyno timau amlbroffesiynol, ond ychydig iawn o werthusiad sydd wedi bod o hyn hyd yma.

59 Yn wahanol i sawl rhan o Gymru, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli unrhyw feddygfeydd yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae gwybodaeth y Bwrdd Iechyd yn dangos bod Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol wedi dod yn fwyfwy bregus dros y flwyddyn ddiwethaf, felly mae cynaliadwyedd tymor hir yn peri pryder. Mae Uned Cefnogi Meddygfeydd Teulu y Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn ffordd adweithiol yn bennaf i geisiadau gan feddygfeydd unigol. Gyda'r ffordd hon o weithio, mae yna risg y bydd yr uned ond yn cefnogi meddygfeydd ar ôl iddynt ddechrau wynebu problemau mawr, yn hytrach nag ymgysylltu â meddygfeydd yn rhagweithiol yn gynharach.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn araf o ran mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion o'm gwaith blaenorol ac mae angen iddo wella sut y mae'n monitro ac olrhain hyn.

60 Mae fy ngwaith wedi dod i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn araf o ran mynd i'r afael â'm hargymhellion ac, mewn rhai achosion, ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd adroddiad asesu strwythuredig 2017 ym mis Chwefror 2018. Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio ymateb rheolwyr ar 25 Medi 2018 gyda diweddariad chwe mis yn dangos y diffyg cynnydd yn erbyn ein hargymhellion. Y Bwrdd Iechyd oedd unig gorff y GIG na ddarparodd ymateb gan reolwyr cyn i ni gychwyn ar ein gwaith asesu strwythuredig 2018.

61 Rwyf hefyd wedi gwneud gwaith archwilio dilynol manwl i asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael ag argymhellion sy'n codi o waith archwilio blaenorol ar reoli cyfarpar meddygol. Mae'r canfyddiadau o'r gwaith dilynol hwn wedi'u crynhoi yn Arddangosyn 4.

Arddangosyn 4: cynnydd o ran rhoi argymhellion archwilio ar waith mewn meysydd gwasanaeth penodol

| Maes gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau archwilio allweddol |
|---|---|
| Adolygiad dilynol o Gyfarpar Meddygol: | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad 2013, ond mae angen gwneud mwy.<br>Deuthum i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi rhoi un argymhelliad ar waith yn llawn ac wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn y chwe argymhelliad arall.<br>Deuthum i'r casgliad:<br>• bod gan y Bwrdd Iechyd brosesau sicrwydd a rheolaeth fewnol digonol ar gyfer cyfarpar meddygol, ond y gellid gwella'r rhain;<br>• bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno dull gweithio integredig ar gyfer gwariant cyfalaf, ond mae cydweithrediad ar gyfarpar meddygol ar draws gwasanaethau gweithredol yn dal i fod yn broblem;<br>• nad oes gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd ddiffiniedig at adnewyddu cyfarpar meddygol o dan £5,000;<br>• nad yw'r Bwrdd Iechyd yn adolygu materion/digwyddiadau yn ymwneud â chyfarpar meddygol ar lefel bwrdd clinigol;<br>• nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno un rhestr cyfarpar meddygol sengl; ac<br>• nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwerthuso'r trefniadau ar gyfer cyfarpar meddygol o fewn gwasanaethau patholeg (meddygaeth labordy). |

## Mae'r ymchwiliad i dwyll posibl, a amlygwyd gan ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol, wedi bod yn annigonol

62 Bob dwy flynedd, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yn defnyddio ymarfer paru data i helpu i ganfod twyll a gordaliadau trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau. Mae'n adnodd hynod effeithiol i gyrff cyhoeddus gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd. Darparodd yr ymarfer diwethaf ym mis Ionawr 2017 851 o barau data risg uchel. Erbyn mis Tachwedd 2018, dim ond 448 (53%) o'r rhain roedd y Bwrdd Iechyd wedi'u hadolygu.

63 Er y cafwyd cynnydd o ran adolygu parau data risg uchel, rwy'n poeni nad yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r NFI yn effeithiol a'i fod yn colli cyfleoedd i ganfod twyll sy'n gysylltiedig â materion megis buddiannau staff heb eu datgan gyda chyflenwyr y Bwrdd Iechyd. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi adolygu rhai gordaliadau, a'u hadfer, nid yw wedi adolygu'r holl barau ac nid oes ganddo ffordd gadarn o atal taliadau dyblyg. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau hefyd ei fod yn cofnodi'r parau y mae wedi'u hadolygu.

64 Bydd canlyniadau'r ymarfer NFI nesaf ar gael yn gynnar yn 2019. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl barau a argymhellir yn cael eu hadolygu ac, yn ôl yr angen, yr ymchwilir iddynt mewn ffordd amserol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

### Arddangosyn 5: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2018.

| Adroddiad | Mis cyhoeddi |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2018 |
| Atodiad i'r Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol - Argymhellion | Medi 2018 |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol | Rhagfyr 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol – Cronfeydd Elusennol | Rhagfyr 2018 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Rheoli cyfarpar meddygol – adolygiad dilynol | Mehefin 2018 |
| Gofal Sylfaenol | Tachwedd 2018 |
| Asesiad Strwythuredig 2018 | Chwefror 2019 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2018 | Chwefror 2018 |

### Arddangosyn 6: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo

Mae amryw o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiad cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adroddiad dilynol ar godio clinigol | Ebrill 2019 |
| Adroddiad dilynol ar theatrau llawdriniaethau | Gorffennaf 2019 |
| Adroddiad dilynol ar adolygiadau TG blaenorol | Gorffennaf 2019 |
| Adroddiad dilynol ar Wasanaethau Orthopedig | Hydref 2019 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2018 ffi archwilio arfaethedig o £415,652 (heb gynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi). Mae fy amcangyfrif diweddaraf yn dangos bod y gwaith archwilio ariannol wedi arwain at gostau ychwanegol o £3,319, y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohonynt. Mae'r gwaith archwilio perfformiad yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad. Byddaf yn parhau i adolygu hyn ac yn diweddaru'r Bwrdd Iechyd os bydd y sefyllfa hon yn newid.

O fewn y ffi a nodir uchod, cost y gwaith archwilio a wnaed ar y cydwasanaethau a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru oedd £10,266.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol sylweddol

### Arddangosyn 7: risgiau archwilio sylweddol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2018 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2018. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA[4] 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. | Adolygais sawl un o'r amcangyfrifon cyfrifyddu a sampl o drafodion a oedd yn cynnwys cofnodion mewn dyddlyfrau. Ni nodais unrhyw faterion i'w hadrodd. |
| O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, daeth y gofyniad ar i fyrddau iechyd fod â therfynau adnoddau blynyddol i ben ar 1 Ebrill 2014. Yn hytrach, symudwyd i derfyn adnoddau tair blynedd treigl, gyda'r cyfnod tair blynedd cyntaf yn rhedeg tan 31 Mawrth 2017.<br>Hyd yma, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i'w derfynau adnoddau cyfalaf.<br>Fodd bynnag, o ran refeniw, ar gyfer y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2017, roedd gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg refeniw tair blynedd o £50.5 miliwn (felly, cyhoeddais farn amodol ar reoleidd-dra datganiadau | Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18, ac ar gyfer y sefyllfa tair blynedd gronnus hyd at 31 Mawrth 2018.<br>Byddai'r adolygiad hwn yn ystyried hefyd effaith unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro perthnasol dros y tair blynedd hynny.<br>Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni'r terfynau adnoddau tair blynedd ar gyfer refeniw a/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2017-18. Byddwn yn disgwyl hefyd rhoi adroddiad o sylwedd ar y | Fel y nodwyd ar dudalennau 8 i 10 o'r adroddiad hwn, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyraniad adnoddau refeniw tair blynedd. Felly, cyhoeddais farn amodol ar y cyfrifon. |

[4] Safonau Rhyngwladol ar Archwilio

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17).<br>Ar gyfer 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl y bydd yn mynd dros ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol o £30.9 miliwn; a fyddai'n golygu diffyg cronnus uwch o £60.1 miliwn ac ar gyfer y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2018. | datganiadau i esbonio sail y cymhwyster a'r amgylchiadau sy'n egluro'r sefyllfa. | |
| Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18, felly mae wedi methu â chyflawni ei ofyniad statudol. | Bydd fy nhîm archwilio yn sicrhau bod datgeliad priodol yn cael ei wneud yn y datganiadau ariannol. Os nad oes IMTP cymeradwy ar waith, byddwn yn disgwyl rhoi adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol. | Fel y nodwyd ar dudalennau 8 i 10 o'r adroddiad hwn, methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni'r ddyletswydd ariannol hon a rhoddais adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon. |
| Cynhaliwyd y prisiad bob pum mlynedd o dir ac adeiladau yn ystod 2017-18, gyda'r holl asedau'n cael eu hailbrisio ar 1 Ebrill 2017.<br>Roedd ailbrisiadau blaenorol wedi gweld cyrff y GIG yn ailbrisio eu tir a'u hadeiladau mewn ffordd wahanol. Er enghraifft, gan brisio'n seiliedig ar safle, bloc neu adeilad unigol, er enghraifft).<br>Ar gyfer ymarfer ailbrisio 2017-18, rhaid i bob ailbrisiad fod ar lefel adeilad, a allai arwain at newidiadau i werth asedau.<br>Mae yna risg o gamddatganiad perthnasol yn codi o'r trafodion cyfrifon cymhleth hyn. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r fethodoleg a ddefnyddir i ailbrisio asedau tir ac adeiladau ac yn archwilio'r ailbrisiadau a'r cofnodion cyfrifyddu o ganlyniad i hynny. | Roedd canlyniadau'r archwiliad yn foddhaol, ac eithrio rhai cofnodion cyfrifyddu gwallus yr aeth y Bwrdd Iechyd ati i'w cywiro.<br>Y cywiriad oedd un o'r pedwar cywiriad rwy'n sôn amdanynt yn Arddangosyn 1 o'r adroddiad hwn. |
| Rwy'n archwilio rhai o'r datgeliadau yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth, megis taliadau cydnabyddiaeth uwch swyddogion ac aelodau annibynnol, i raddau llai o faint oherwydd eu sensitifrwydd. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r holl gofnodion yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ac yn sicrhau bod pob newid (er enghraifft, o'n hadolygiad o gofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth) | Roedd canlyniadau'r archwiliad yn foddhaol. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Yn 2016-17, cafwyd sawl newid i uwch swyddi'r Bwrdd Iechyd, gan arwain at gamddatganiadau perthnasol yr oedd rhaid eu cywiro.<br>Yn 2017-18, bu newidiadau pellach i swyddi uwch, gan gynyddu'r risg o gamddatganiad unwaith eto. | wedi'i gofnodi'n gywir a llawn yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth. | |
| Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gymeradwyo holl gontractau'r Bwrdd Iechyd sy'n werth mwy nag £1 miliwn. Mewn blynyddoedd blaenorol, ar gyfer rhai contractau methodd y Bwrdd Iechyd â chael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, gan fynd ati i gael cymeradwyaeth ar ôl dyfarnu'r contractau. Gall contractau a ddyfernir heb gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru arwain at wariant afreolaidd a fyddai, os yn berthnasol (yn unigol neu'n gyfunol), yn effeithio ar fy marn ar reoleidd-dra. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu cofnod contractau'r adran gaffael ac yn cael tystiolaeth o gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhai sy'n werth mwy nag £1 miliwn. | Roedd canlyniadau'r archwiliad yn foddhaol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru